
# Pennod 3: Defnyddio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i wneud penderfyniadau

### Sgoriau hylendid bwyd derbyniol

## Ffigur 13. Parodrwydd i fwyta bwyd mewn bwyty neu o safle tecawê â sgôr hylendid bwyd islaw 5.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| | **Aros am arolygiad - Lloegr, Gogledd Iwerddon** | **Aros am arolygiad - Cymru** | **0 - angen gwella ar frys** | **1 - angen gwella yn sylweddol** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dal i fwyta yn y bwyty / siop tecaw? | 35 | 41 | 2 | 2 |
| Peidio bwyta yn y bwyty / siop tecaw? | 44 | 37 | 95 | 94 |
| Ddim yn gwybod | 21 | 22 | 3 | 3 |

Lawrlwytho'r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 4

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried a fydden nhw'n dal i fwyta neu archebu bwyd o fwyty neu o siop tecawê pe baen nhw'n gweld sgôr is na'r sgôr uchaf o 5 (da iawn) ar sticer sgôr hylendid bwyd ar ôl cyrraedd safle'r busnes bwyd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y bydden nhw'n dal i fwyta bwyd mewn bwyty neu o siop tecawê pe baen nhw'n gweld sticer â sgôr hylendid bwyd o 4 (da) (94%) neu 3 (boddhaol ar y cyfan) (61%). Serch hynny, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr na fydden nhw'n bwyta bwyd mewn bwyty nac o siop tecawê pe baen nhw'n gweld sticer â sgôr hylendid bwyd o 2 (angen gwella) (81%), 1 (angen gwella yn sylweddol) (94%) neu 0 (angen gwella ar frys) (95%) (Ffigur 13) (footnote 1).


Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa sgôr y bydden nhw fel arfer yn ei hystyried fel y sgôr hylendid bwyd isaf a fyddai'n dderbyniol iddyn nhw wrth ystyried prynu bwyd o rywle. Byddai llai nag un o bob 10 (8%) o'r ymatebwyr yn ystyried sgôr o 5 (da iawn) fel eu sgôr dderbyniol isaf. Byddai dros bedwar o bob 10 ymatebydd (41%) yn ystyried sgôr o 4 (da) fel eu sgôr dderbyniol isaf, gyda 40% o'r ymatebwyr yn ystyried sgôr o 3 (boddhaol ar y cyfan), a 4% yn ystyried sgôr o 2 (angen gwella) fel eu sgôr dderbyniol isaf. Byddai tua un o bob cant (1%) o'r ymatebwyr yn ystyried sgôr o 1 (angen gwella yn sylweddol) ac 1% yn ystyried sgôr o 0 (angen gwella ar frys) fel eu sgôr dderbyniol isaf. (footnote 2)

### Sefyllfaoedd sy'n effeithio ar sgoriau hylendid bwyd derbyniol

## Ffigur 14. Parodrwydd i fwyta bwyd mewn bwyty neu o siop tecawê â sgôr hylendid bwyd sy'n is na'u sgôr dderbyniol isaf.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| Column1 | 2 - angen gwella | 3 - boddhaol ar y cyfan | 4 - da | 5 - da iawn |
|---|---|---|---|---|
| Ydw | 35 | 19 | 23 | 30 |
| Nac ydw | 50 | 69 | 66 | 54 |
| Ddim yn gwybod | 15 | 12 | 12 | 16 |

Lawrlwytho'r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 4


Gofynnwyd i'r ymatebwyr a allen nhw feddwl am sefyllfa lle y gallen nhw benderfynu prynu bwyd o fusnes â sgôr is na'u sgôr dderbyniol isaf arferol. Ar draws pob sgôr, dywedodd tua dau draean yr ymatebwyr (65%) na allen nhw feddwl am sefyllfa lle y gallen nhw benderfynu prynu bwyd o fusnes bwyd â sgôr is, roedd 22% yn gallu meddwl am sefyllfa (Ffigur 14) (footnote 3).

## Ffigur 15. Sefyllfaoedd lle y gallai'r ymatebwyr brynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr hylendid bwyd is na'u sgôr

**dderbyniol isaf arferol.**

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| | Series 1 |
|---|---|
| Byddwn yn cymryd yn ganiataol ei fod yn ddiogel os yw e?n dal i fod ar agor | 10 |
| Roedd yn rhan o gadwyn gyfarwydd | 10 |
| Roeddwn yn mwynhau blas y bwyd | 12 |
| Roeddwn mewn lleoliad anghyfarwydd | 13 |
| Nid oedd gennyf lawer o arian / roedd yn rhad | 17 |
| Roedd rhywun arall wedi dewis y busnes bwyd | 20 |

| | Series 1 |
|---|---|
| Roedd rhywun arall wedi argymell y lle | 25 |
| Roeddwn yn gwybod bod y bwyd o ansawdd uchel | 29 |
| Roeddwn allan yn hwyr yn y nos | 30 |
| Roedd angen i mi fachu rhywbeth yn gyflym | 32 |
| Roeddwn wedi bwyta bwyd o'r lle hwnnw o'r blaen | 45 |
| Nid oes llawer o ddewis o ran ble i fynd | 48 |

Lawrlwytho’r siart hon


Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 4
Gofynnwyd i’r ymatebwyr hynny a oedd yn gallu meddwl am sefyllfa lle y gallen nhw brynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr is na’u sgôr dderbyniol arferol egluro beth fyddai’r sefyllfa honno drwy ddewis o blith rhestr o opsiynau. Y sefyllfaoedd mwyaf cyffredin oedd: pe na bai llawer o ddewis o leoedd i fynd iddyn nhw (48%), pe baen nhw wedi bwyta bwyd oddi yno o’r blaen (45%), pe baen nhw angen bachu rhywbeth yn gyflym (32%), neu pe baen nhw allan yn hwyr y nos (30%) (Ffigur 15) (footnote 4).

## Ffigur 16. Parodrwydd i brynu bwyd gan fusnes â sgôr hylendid bwyd sy’n uwch na’u sgôr derbyniol isaf arferol.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| Column1 | 2 - angen gwella | 3 - boddhaol ar y cyfan | 4 - da | Pob sg?r: 0-4 |
|---|---|---|---|---|
| Ydw | 66 | 66 | 64 | 64 |
| Nac ydw | 20 | 21 | 24 | 24 |
| Ddim yn gwybod | 14 | 13 | 12 | 12 |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv


Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 4

Gofynnwyd i’r ymatebwyr a allen nhw feddwl am sefyllfa lle na fydden nhw ond yn prynu bwyd o fusnes bwyd â sgôr uwch na’u sgôr dderbyniol isaf arferol. Yn gyffredinol, gallai’r rhan fwyaf o’r ymatebwyr (64%) feddwl am sefyllfa lle y bydden nhw’n gwneud hyn, ac nid oedd 24% o’r ymatebwyr yn gallu. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr a oedd yn tybio bod sgôr o 2 (angen gwella) (66%), 3 (boddhaol ar y cyfan) (66%) neu 4 (da) (64%) yn gyffredinol dderbyniol yn gallu meddwl am sefyllfa lle na fydden nhw ond yn prynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr uwch (Ffigur 16) (footnote 5).

## Ffigur 17. Achlysuron lle na fyddai’r ymatebwyr ond yn prynu bwyd gan fusnes â sgôr hylendid bwyd sy’n uwch na’u sgôr dderbyniol arferol.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| | Achlysur |
|---|---|
| Arall | 7 |
| Pan fyddai'n rhan o gadwyn | 11 |
| Eisiau mynd rhywle drud | 21 |
| Gyda phobl h?n | 35 |
| Gyda phlant ifanc | 36 |

| | Achlysur |
|---|---|
| Problemau iechyd arbennig | 39 |
| Gyda phobl benodol/aelodau'r teulu | 40 |
| Mewn lleoliad anghyfarwydd | 40 |
| Achlysur arbennig | 55 |

Lawrlwytho'r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 4
Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd yn gallu meddwl am achlysur lle na fydden nhw ond yn prynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr uwch na'u sgôr dderbyniol arferol egluro beth fyddai'r achlysur hwnnw trwy ddewis o blith rhestr o opsiynau. Yr achlysuron mwyaf cyffredin oedd achlysuron arbennig (55%), pan fydd yr ymatebydd mewn lle anghyfarwydd (er enghraifft gweithio i ffwrdd neu ar wyliau) (40%), pan fydd yr ymatebydd yng nghwmni pobl benodol neu aelodau penodol o'i deulu (40%), neu pan fydd gan yr ymatebydd neu rywun arall ofynion iechyd arbennig (er enghraifft salwch neu feichiogrwydd) (39%) (Ffigur 17) (footnote 6).

### Effaith y sticer sgôr hylendid bwyd ar ganfyddiadau ac ymddygiad

Pe na bai sticer sy'n dangos sgôr hylendid bwyd y busnes yn cael ei arddangos wrth y fynedfa, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau, os o gwbl, y byddai hynny'n effeithio ar eu penderfyniad i fwyta yno. O blith y rheiny a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, roedd dros hanner yr ymatebwyr (57%) yn llai tebygol (hynny yw 'yn llawer llai tebygol' neu 'ychydig yn llai tebygol') o fwyta bwyd mewn busnes bwyd nad oedd yn arddangos sticer sgôr hylendid bwyd wrth y fynedfa. Fodd bynnag, dywedodd 28% o'r ymatebwyr na fyddai'n eu gwneud yn llai tebygol o fwyta yno.


Byddai cyfran uwch o'r ymatebwyr sy'n byw yng Nghymru (66%) yn llai tebygol (hynny yw 'yn llawer llai tebygol' neu 'ychydig yn llai tebygol') o fwyta mewn busnes bwyd nad oedd yn arddangos sticer sgôr hylendid bwyd wrth y fynedfa o'u cymharu ag ymatebwyr yn Lloegr (56%). Byddai tua 6 o bob 10 (61%) o ymatebwyr yng Ngogledd Iwerddon yn llai tebygol o fwyta mewn busnes bwyd nad oedd yn arddangos sticer sgôr hylendid bwyd wrth y fynedfa** (footnote 7).

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedden nhw wedi penderfynu peidio â defnyddio busnes bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf oherwydd nad oedd yn arddangos sticer a oedd yn dangos ei sgôr hylendid bwyd. O blith yr ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, dywedodd 15% eu bod wedi penderfynu peidio â defnyddio busnes bwyd oherwydd nad oedd yn arddangos sticer a oedd yn dangos ei sgôr hylendid bwyd (footnote 8).

## Ffigur 18. Pryderon yr ymatebwyr pe na bai busnes bwyd yn arddangos ei sticer sgôr hylendid bwyd ar ei safle.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| | Pryder |
|---|---|
| Ni fyddwn yn poeni | 4 |
| Ni fyddwn yn sylwi bod sticer ar goll | 27 |
| Nid yw'r busnes yn bodloni gofynion cyfreithiol | 37 |
| P'un yw'r busnes wedi cael ei arolygu gan yr awdurdodau perthnasol ai peidio | 39 |
| Risg uwch o gael gwenwyn bwyd/salwch/haint | 40 |
| Pa mor ddiogel yw bwyta yn y busnes | 41 |
| Busnes wedi cael sg?r hylendid bwyd isel/gwael a'i fod yn ceisio ei chuddio | 45 |
| Busnes wedi cael safonau hylendid gwael | 48 |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 4

Respondents were asked what concerns they would have if they visited a food business that did not display its food hygiene rating sticker on the premises. The most common concerns were that the food business had poor hygiene standards (48%) and that the food business had a poor or low food hygiene rating and was trying to hide it (45%). Over a quarter (27%) of respondents would not notice the food hygiene rating sticker was missing and 4% would not be concerned about anything if the sticker was not displayed (Figure 18) (footnote 9).

1. Cwestiwn: Ar gyfer pob un o’r sgoriau hylendid canlynol, nodwch a fyddech chi’n dal i fwyta bwyd mewn bwyty neu o siop tecawê pe baech yn gweld y sgôr honno, neu a fyddech yn penderfynu peidio â bwyta bwyd yn y bwyty neu o’r siop tecawê honno. Ymatebion: Byddwn i’n dal i fwyta bwyd yn y bwyty / o’r siop tecawê, Fyddwn i ddim yn bwyta bwyd yn y bwyty / o’r siop tecawê, Ddim yn gwybod. Sylfaen = gweler tabl FHRS11_rebased i weld y rhifau sylfaen, yr holl ymatebwyr ar-lein a’r rheiny a atebodd yr holiadur ‘Bwyta Allan’ trwy’r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

2. Cwestiwn: Ar raddfa sgoriau o 0 i 5, beth yw’r sgôr isaf a fyddai’n dderbyniol i chi fel arfer pe baech chi’n ystyried prynu bwyd o rywle? Ymatebion: 0 – angen gwella ar frys, 1 – angen gwella yn sylweddol, 2 – angen gwella, 3 – boddhaol ar y cyfan, 4 – da, 5 – da iawn, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4269, yr holl ymatebwyr ar-lein a’r rheiny a atebodd yr holiadur ‘Bwyta Allan’ trwy’r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, ac eithrio’r rheiny ‘heb nodi’.

3. Cwestiwn: A allwch chi feddwl am sefyllfa lle y gallech chi benderfynu prynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr is na … (sgôr)? Ymatebion: Ydw, Nac ydw, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 3289, yr holl ymatebwyr ar-lein a ddywedodd eu bod yn ystyried sgôr o … (sgôr) yn dderbyniol pan fyddan nhw’n prynu bwyd o rywle, ac eithrio’r rhai nad oedden nhw wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Pwysig: ‘Ar raddfa sgoriau o 0 i 5, beth yw’r sgôr isaf a fyddai’n dderbyniol i chi fel arfer pe baech yn ystyried prynu bwyd o rywle?’

4. Cwestiwn: Beth fyddai’r achlysur hwnnw? Ymatebion: Pe na bai llawer o ddewis o leoedd i fynd iddyn nhw, Pe bawn i wedi bwyta bwyd oddi yno o’r blaen, Pe bawn i allan yn hwyr y nos, Pe bawn i’n gwybod bod y bwyd o ansawdd uchel, Pe bai angen bwyd arna i’n gyflym, Pe bai rhywun wedi argymell y lle, Pe na bai gennyf lawer o arian i’w wario/pe bawn i am brynu bwyd o rywle rhad, Pe bai rhywun arall yn fy ngr?p wedi dewis y busnes bwyd hwn, Pe bawn i’n mwynhau blas y bwyd o’r lle, Pe na bawn i’n gyfarwydd â’r lleoliad (gweithio i ffwrdd, ar wyliau, ac ati), Pe bai’n rhan o gadwyn rydw i’n gyfarwydd â hi, Oherwydd y byddwn i’n tybio ei fod yn ddiogel os yw’n dal i fod yn agored/gweithredu, Pe bai’r busnes bwyd yn gweini math penodol o fwyd (e.e. math o cuisine neu ddewisiadau llysieuol/figan), Pe bawn i’n cael bwyd tecawê yn hytrach na bwyta ar y safle, Arall, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 700, yr holl ymatebwyr ar-lein a oedd yn gallu meddwl am sefyllfa lle y gallen nhw brynu bwyd o fusnes bwyd â sgôr is na’u sgôr dderbyniol arferol, ac eithrio’r rheiny nad oedden nhw wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

5. Cwestiwn: Allwch chi feddwl am achlysur lle na fyddech chi ond yn prynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr uwch na … (sgôr)? Ymatebion: Ydw, Nac ydw, Ddim yn gwybod. Sylfaen =

3092, yr holl ymatebwyr ar-lein a ddywedodd y bydden nhw'n bwyta bwyd o fusnes â sgôr o … (sgôr), ac eithrio'r rheiny nad oedden nhw wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Pwysig: 'Ar raddfa sgoriau o 0 i 5, beth yw'r sgôr isaf a fyddai'n dderbyniol i chi fel arfer pe baech yn ystyried prynu bwyd o rywle?'

6. Cwestiwn: Beth fyddai'r achlysur hwnnw? Ymatebion: Pan fydd yn achlysur arbennig (pen-blwydd, pen-blwydd priodas, dathliad, ac ati), Pan fyddaf i yng nghwmni pobl benodol/aelodau penodol o'r teulu, Pan fyddaf i mewn lle anghyfarwydd (gweithio i ffwrdd, ar wyliau, ac ati), Pan fydd gennyf i neu rywun arall ofynion iechyd arbennig (salwch, beichiogrwydd, ac ati), Pan fyddaf i'n mynd yng nghwmni pobl h?n, Pan fyddaf i'n mynd yng nghwmni plant (ifanc), Pan fyddaf i am fynd i le drud, Pan fydd yn rhan o gadwyn, Arall. Sylfaen = 1907, yr holl ymatebwyr ar-lein a ddywedodd na fydden nhw ond yn bwyta bwyd o fusnes â sgôr uwch, ac eithrio'r rheiny nad oedden nhw wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

7. Cwestiwn: Pe na bai sticer sy'n dangos sgôr hylendid bwyd y busnes yn cael ei arddangos wrth y fynedfa, i ba raddau, os o gwbl, y byddai hynny'n effeithio ar eich penderfyniad i fwyta yno? Ymatebion: Byddwn i'n llawer llai tebygol o fwyta yno, Byddwn i ychydig yn llai tebygol o fwyta yno, Fyddwn i ddim yn llai tebygol o fwyta yno, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4350, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan trwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

8. Cwestiwn: Yn ystod y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi penderfynu peidio â defnyddio busnes bwyd gan nad oedd yn arddangos sticer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd? Ymatebion: Do, Naddo, Ddim yn gwybod/Methu cofio. Sylfaen = 4345, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur 'Bwyta Allan' trwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

9. Cwestiwn: Pe baech yn ymweld â busnes bwyd nad oedd yn arddangos sticer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ar y safle, a fyddech chi'n pryderu am unrhyw rai o'r pethau a ganlyn? Ymatebion: Bod gan y busnes bwyd sgôr hylendid bwyd isel neu wael a'i fod yn ceisio'i chuddio, Bod safonau hylendid y busnes bwyd yn wael, A yw'r busnes bwyd wedi'i arolygu gan yr awdurdodau perthnasol ai peidio, Bod mwy o berygl o gael gwenwyn bwyd/salwch/haint drwy fwyta yno, Pa mor ddiogel yw hi i fwyta yn y busnes bwyd, Nad yw'r busnes bwyd yn bodloni'r gofynion cyfreithiol, Fyddwn i ddim yn sylwi pe na bai'r sticer yn cael ei arddangos, Fyddwn i ddim yn pryderu am ddim byd, Arall, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4350, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur 'Bwyta Allan' trwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, ac eithrio'r rheiny 'heb nodi'.